

Ar ddydd Mawrth, 17 Mawrth 2009 cynhaliwyd Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trefeurig yn Hen Ysgol Trefeurig am 7.00 pm

PRESENNOL: Y Cyng. R Owen (Cadeirydd); D M Hughes; Mrs G Price; Mrs E Davies; Mrs K Walker; D Jones; T Davies; D Sheppard; T Lewis; M Evans a'r cler

2458 Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyng. D R Morgan

2459 Datgan diddordeb personol / rhagfarnol: Dim

2460 **Cadarnhau Cofnodion:** PENDERFYNWYD cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 17eg Chwefror 2009 fel cofnod cywir. Trafodwyd y materion canlynol oedd yn codi o'r Cofnodion:

Cofnod 2435 Map Cymuned Trefeurig: Arddangoswyd y map newydd ac roedd yr aelodau'n hapus gyda'r canlyniad. PENDERFYNWYD gwneud trefniadau iddo gael ei osod ar y sylfaen garreg ym Mhenrhyncoch pan fydd y ffrâm dderw wedi'i hailwampio.

Cofnod 2444 Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol: Rhoddodd y Cyng. R Owen amlinelliad byr o gynnwys yr Adroddiad. PENDERFYNWYD ei nodi.

2461 **Cwynion ynghylch sbwriel yn y caban aros bws ger Swyddfa Bost**

Penrhyncoch: Adroddodd y Cyng. Walker ei bod wedi clirio'r sbwriel o'r caban ger y swyddfa bost yn dilyn nifer o gwynion. Gofynnodd a fyddai modd trefnu sesiynau glanhau rheolaidd. PENDERFYNWYD gosod Hysbysiad yn gofyn i bobl i roi eu sbwriel yn y bin sbwriel gerllaw a gwneud ymdrechion pellach i ddod o hyd i rywun sy'n fodlon glanhau'r cabannau aros yn rheolaidd.

2462 **Llyfr Cofnodion Cymraeg – Ionawr 2002 hyd Tachwedd 2008:** Mae'r fersiwn Gymraeg o'r Cofnodion, sy'n cofnodi cyfarfodydd y Cyngor o Ionawr 2002 hyd Tachwedd 2007 wedi'u hysgrifennu â llaw gan y Cyng. Mrs Edwina Davies. Mae'r llyfr yn llawn erbyn hyn a bydd yn cael ei osod gyda'r llyfrau eraill sy'n cynnwys Cofnodion y Cyngor yn Archifau Ceredigion. Mynegodd y Cadeirydd ddiolch ar ran yr holl aelodau i'r Cyng. Davies am ei gwaith. Bydd y cofnodion Cymraeg a Saesneg yn cael eu paratoi'n gyfrifiadurol o hyn ymlaen.

2463 **Derbyniad Band Eang – ardal Cymuned Trefeurig:** Yn dilyn adroddiad Dr King yng Nghyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror ar y posibilrwydd o wella'r derbyniad band eang o fewn ardal Cymuned Trefeurig, PENDERFYNWYD dilyn ei gynigion. Nodwyd bod llythyr wedi'i dderbyn gan fusnes lleol yn cefnogi unrhyw ymdrechion i wella'r gwasanaeth presennol.

2436 **Adroddiadau ar Gyfarfodydd a fynychwyd gan Aelodau'n cynrychioli'r Cyngor Cymuned:**

Age Concern – Diwrnod Ymwybyddiaeth Twyll – Aberystwyth 18.02.09:

Rhoddodd y Cyng. D Sheppard adroddiad manwl ar y rhybuddion a roddir gan yr Heddlu a swyddogion Safonau Masnachu ynghylch y lefel uchel o dwyll yn erbyn pobl hŷn neu bobl agored i niwed. Mae dros £3.5 biliwn yn cael ei golli bob blwyddyn o ganlyniad i dwyll yn y Deyrnas Unedig. PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r adroddiad.

Cyfarfod Cyswllt Cymunedol Airtricity - Talybont 17.02.09: Adroddodd y Cyng. K Walker fod trafodaethau pellach wedi cymryd lle ynghylch y Cylch Gorchwyl, bod diwygiadau pellach wedi'u cymeradwyo a'r gobaith yw y bydd y ddogfen yn cael ei chymeradwyo a'i harwyddo yn y cyfarfod nesaf. Cynhaliwyd trafodaethau hefyd ynghylch y Cynllun Ymgysylltu Cymunedol a Buddiannau Cymunedol. Anfonir copïau o'r cynigion at aelodau'r Grŵp Cyswllt Cymunedol ar gyfer ymgynghoriad a sylwadau. Cynhelir cyfarfod nesaf y Grŵp Cyswllt ar 28.04.09.

Cynllun Datblygu Lleol Cyn Adneuo Ceredigion - Aberystwyth 04.03.09:

Mynychodd y Cyng. Melvyn Evans a K Walker y cyfarfod a rhoesant adroddiad llawn ar y materion a drafodwyd

2437 **Ers hynny derbyniwyd y Dogfennau Ymgynghoriad Cyn Adneuo canlynol ar gyfer sylwadau erbyn 28.04.09:**

Y Strategaeth Ddewisol

Adroddiad Asesu Cynaliadwyedd Cychwynnol (SAR)

Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)

PENDERFYNWYD y bydd y Cyng. R Owen yn darllen y rhain ac yna gwneir trefniadau i'r Cyngor ystyried a chytuno ar ymateb i'r dogfennau.

Derbyniwyd ac ystyriwyd yr ohebiaeth/dogfennau canlynol:

- 2438 Gwybodaeth ynghylch trwyddedu Tai Amifeddiannaeth:** PENDERFYNWYD ei harddangos
- 2439 LICC –** Cydnabyddiaeth o lythyr y Cyngor yn cefnogi'r ymgyrch i sefydlu Coleg Milfeddygol yn Aberystwyth. PENDERFYNWYD ei dderbyn.
- 2440 Cylchlythyr Un Llais Cymru:** Manylion y cynllun a gwahoddiad i gynghorau gymryd rhan yn 'cyfnewidcymru': menter gaffael gydweithredol y Cynulliad Cenedlaethol. PENDERFYNWYD ei dderbyn.
- 2441 Swyddog Monitro Ceredigion:** Llythyr i egluro camddealltwriaeth posib ynghylch ceisiadau am ganiatâd i siarad a phleidleisio mewn perthynas â rhodd-daliadau.

MATERION ARIANNOL

- 2442 Adolygiad o Gyllideb y Cyngor:**
Datganiad cysoni'r banc @ 31/12/08 yn dangos balans o £7,956. Roedd sieciau a wnaed yn Ionawr a Chwefror 2009 yn dod i gyfanswm o £3,767 gan adael £3,767 ar gyfer gwariant hyd 31/03/09
- 2443 Gwahoddiad i adnewyddu aelodaeth Un Llais Cymru ar gyfer 2009/10:**
PENDERFYNWYD ei dderbyn.
- 2444 Ceisiadau am gymorth ariannol a dderbyniwyd ar ôl Cyfarfod mis Chwefror:**
PENDERFYNWYD hysbysu'r ymgeiswyr bod y swm a neilltuwyd ar gyfer grantiau yn 2008/09 eisoes wedi'i ddsbarthu.
- 2445 Cynnig gan Airtricity bod y costau teithio a hawlir gan Gynghorwyr yn mynychu Cyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Cymunedol yn cael eu had-dalu gan y Cyngor @ 45c y filltir.** PENDERFYNWYD ei dderbyn.

Cytunwyd i dalu'r anfonebau canlynol:

- 2446 Un Llais Cymru:** Tâl aelodaeth 2009/10: **£180.** Siec 908
- 2447 L Griffiths:** Cyfieithu Chwefror 2009: **£83.98.** Siec 909
- 2448 J S Mason:** Ail-osod map ardal Trefeurig: **£648.65.** Siec 910
- 2449 Alun Hughes:** Cynnal a chadw, a thrwsio hysbysfyrddau: **£210** Siec 911
- 2450 P Walker:** Cyflog Ion/Mawrth 09. Treuliau Hydref 08/Mawrth 09: **£832.66** Siec 912
- 2451 Neuadd y Penrhyn:** Hurio ystafell a rhent safle 08/09: **£80** Siec 913
- 2452 R C Jenkins:** Rhent safle 2008/09: **£20** Siec 914
- 2453 BT:** Galwadau a thaliadau hyd 8 Mawrth 2009: £95.77+TAW £13.69: **£109.46** Siec 915
- 2454 GDYT:** Hurio ystafell ar gyfer Cyfarfod mis Mawrth: **£10** Siec 916
- 2455 Cyng. K Walker :** Teithio i Aberaeron 21/1/09:Talybont 17/02/09:Cyfanswm £35.11+TAW 67c: **£35.78** Siec 917
- 2456 P Walker:** Ad-dalu costau trwsio cyfrifiadur: **£35** Siec 918
- 2457** Nid yw'r anfoneb gan Geredigion ar gyfer gwagio'r biniau baw cŵn wedi cyrraedd eto. Os derbynnir hi cyn diwedd y flwyddyn ariannol mae'r clerc wedi'i hawdurdodi i drefnu'r taliad.
- 2458 Nodwyd y penderfyniad cynllunio canlynol:**
Llain gerllaw Pendorlan, Penbontrhydybeddau - 2 annedd: rhoddwyd caniatâd

Ystyriwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:

- 2459 A090113 ger Ysgubor Newydd, Capel Madog:** Sied ar gyfer storio offer amaethyddol: Dim gwrthwynebiad.
- 2460 A090095 44 Dôl Helyg, Penrhyncoch:** estyniad: Dim gwrthwynebiad
- 2462 Cynhelir Cyfarfod nesaf y Cyngor yn Neuadd y Penrhyn am 7.00 pm ar ddydd Mawrth, Ebrill 21ain 2009.**
- 2463 Cytunwyd i gynnwys yr eitemau canlynol ar yr agenda nesaf:**
Cyflwr wyneb y ffordd rhwng swyddfeydd yr FUU â chroesffordd yr A4159, Penrhyncoch
Golau llwybr troed diffygiol ger Ceirios, Penrhyncoch.
Cwynion ynghylch cyflwr cilffordd 9/53: Rhodfa Mal Evans trwy Gwmsymlog
Cais i'r Cyngor i gefnogi cwynion ynghylch y diffyg clinig orthodonteg yn ardal Aberystwyth sy'n golygu bod cleifion yn gorfod teithio i glinigau yn Llanelli neu Gaerfyrddin.

Daeth y Cyfarfod i ben am 9.00 pm.

